

Adolygiad Lleol o'r Trefniadau Rheoli Cleifion yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST)

Cylch Gorchwyl

Pam rydym yn gwneud y gwaith hwn

Fel rhan o rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn cynnal trosolwg o bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG. Felly rydym wedi ymrwmo i wneud gwaith ym mhob un o'r Ymddiriedolaethau yn ystod 2019–20.

Cwmpas a Methodoleg

O ganlyniad i bryderon ledled Cymru ynghylch amseroedd aros am ambiwlans, bydd adolygiad lleol AGIC o WAST yn edrych ar y ffordd y caiff risgiau i iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion eu rheoli wrth iddynt aros am ambiwlans. Bydd yr adolygiad yn asesu'n benodol y ffordd y caiff cleifion eu rheoli gan Ganolfannau Cysylltiadau Clinigol unwaith y bydd cais am ambiwlans wedi cael ei dderbyn, hyd at yr adeg y bydd yr ambiwlans yn cyrraedd y claf. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn edrych ar y canlynol:

- Y prif heriau / materion a brofir ledled Cymru sy'n golygu bod cleifion yn aros yn hirach am ambiwlans
- Y ffordd y caiff aciwtedd cleifion ei asesu a'i fonitro wrth iddynt aros am ambiwlans
- Y broses ar gyfer uwchgyfeirio, pe bai cyflwr y cleifion yn gwaethygu wrth iddynt aros am ambiwlans
- Trefniadau monitro a chynllunio yn ystod adegau o alw uchel
- Trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi ansawdd a diogelwch y cleifion
- Trefniadau hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff WAST
- Mentrau a roddir ar waith ledled Cymru er mwyn ceisio lleihau amseroedd aros.

Er mwyn asesu'r meysydd a nodir uchod, bydd yr adolygiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r data sydd ar gael, yn ogystal â chyfres o gyfweiliadau â nifer o aelodau o staff WAST. Bydd hyn yn cynnwys aelodau o'r staff sy'n gweithio ar lefel strategol, yn ogystal â staff gweithredol sy'n gweithio ym mhob un o'r tair Canolfan Cysylltiadau Clinigol yng Nghymru. Er mwyn ein helpu i gasglu sylwadau staff

WAST, bydd arolwg ar gael i alluogi'r staff i fynegi eu barn a rhannu eu profiadau. Caiff y deunydd hwn ei fwydo i'n hadolygiad.

Amserlen

Mae'r tabl isod yn rhoi amserlen prosiect yn fras ar gyfer yr adolygiad:

Gweithgaredd	Amserlen
Cynllunio'r maes gwaith	Hydref – Tachwedd 2019
Gwaith maes	Tachwedd – Rhagfyr 2019
Cyhoeddi'r Adroddiad	Mawrth 2020

Dadansoddi ac adrodd

Drwy gydol cam maes gwaith yr adolygiad, bydd tîm yr adolygiad yn rhoi adborth yn y cyfamser os bydd unrhyw faterion sy'n peri pryder dybryd yn codi.

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad a fydd yn nodi'r themâu a'r argymhellion allweddol a nodwyd gan ein gwaith maes. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a rannwyd gan y staff yn ystod y gwaith maes ei phriodoli'n uniongyrchol iddynt yn yr adroddiad. Hefyd, bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau dienw'r arolwg.

Bydd yr ymddiriedolaeth yn cael copi o'r adroddiad drafft i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol, yn ogystal â chopi o'r adroddiad terfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Os caiff meysydd i'w gwella eu nodi, bydd angen i WAST lunio cynllun gwella a fydd yn amlinellu sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad. Ar ôl ei adolygu, caiff y cynllun gwella ei gyhoeddi ar wefan AGIC ynghyd â'r adroddiad.

Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn rhan o waith AGIC i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygiadau ac adolygiadau o'r GIG neu wasanaethau a ddarperir i'r GIG, ac ymchwilio iddynt.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu'r dull adolygu rydym yn bwriadu ei ddefnyddio.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan <https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd>.